

Comisiynydd Plant Cymru

Hysbysiad preifatrwydd: Sut rydyn ni'n delio gyda'ch gwybodaeth bersonol

Pam rydym ni'n prosesu eich gwybodaeth bersonol

Rydym ni ond yn casglu, recordio ac ambell dro yn rhannu eich gwybodaeth bersonol os yw'r gyfraith yn ein galluogi ni i wneud hynny. Er enghraifft, mae ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor ond yn prosesu eich gwybodaeth bersonol er mwyn iddyn nhw fedru delio gyda'ch achos, o dan bwerau'r Comisiynydd (gallwch ddarllen mwy am rheiny [yma](#)).

Mae gwybodaeth bersonol yn golygu gwybodaeth amdanoch chi, er enghraifft, eich enw, dyddiad geni ac hyd yn oed galwadau ffôn gyda ni. Rydym ni'n casglu, recordio ac ambell waith yn rhannu'r wybodaeth bersonol yma er mwyn i ni fedru teilwra ein cyngor a chymorth i chi.

Ar adegau fe fyddwn ni'n defnyddio gwybodaeth am eich achos i weld os oes yna faterion ehangach neu dueddiadau yn yr achosion rydym ni'n delio â hwy ac efallai fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth yma yn ein gwaith polisi a materion cyhoeddus. Mae'r holl wybodaeth rydym ni'n defnyddio drwy ein gwaith polisi yn anhysbys (h.y. fedrwch chi ddim adnabod unrhyw unigolyn).

Mae holl alwadau ffôn ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor yn cael ei recordio, er mwyn ein helpu gyda hyfforddi, monitor a'n helpu i ddatrys cwynion.

Gyda phwy rydym ni'n rhannu eich gwybodaeth bersonol

Ar adegau fe fyddwn ni'n gwirio eich gwybodaeth gyda'r sefydliad sydd ynghlwm gyda'r achos, gydag eraill sydd wedi bod ynghlwm gyda'r achos neu gyda sefydliadau eraill fyddai efallai'n medru eich helpu i ddatrys y broblem rydych chi wedi rhannu gyda ni. Fe fyddwn ni fel arfer yn dweud wrthoch chi os ydyn ni am rannu eich gwybodaeth bersonol gyda sefydliad arall.

Os, ar unrhyw adeg, y byddwn yn poeni am eich diogelwch, neu diogelwch rhywun sy'n agos i chi, falle byddai rhaid i ni rannu eich gwybodaeth gyda eraill heb eich caniatâd. Os fydd rhaid i ni rannu eich gwybodaeth yn y fath sefyllfa, fe fyddwn ni fel arfer yn dweud wrthoch chi ein bod ni'n gwneud hynny a'r rhesymau pam.

Lle bo'n bosibl, rydym ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol o fewn Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Lle rydym ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol

Rydym ni'n cadw'r holl wybodaeth sydd ynghlwm â'ch achos ar ein system rheoli achosion. Mae'r system yma yn cael ei gadw ar ein gweinydd diogel (secure servers), lle rydym ni hefyd yn cadw'r holl alwadau ffôn sy'n cael eu recordio.

Sut allwn ni gasglu, cadw a defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Mae Deddfau Rheoli Data yn y DU yn nodi holl seiliau cyfreithlon sy'n galluogi'r Comisiynydd a'i thîm i gasglu, cadw a defnyddio eich gwybodaeth. Am fwy o wybodaeth ar y sail cyfreitlon rydych chi'n defnyddio i gadw eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â ni ar post@complantcymru.org.uk

Pa mor hir rydych chi'n cadw gwybodaeth

Rydych chi'n cadw gwybodaeth bersonol am ba bynnag hyd sydd angen, yn unol â'n polisi cadw gwybodaeth a dogfennau. Am fwy o wybodaeth am y polisi yma, ebostrwch ni ar post@complantcymru.org.uk

Eich hawliau

Mae deddfau rheoli data y DU yn nodi yr hawliau sydd gennych fel unigolyn dros eich gwybodaeth.

Mewn rhai sefyllfaoedd, mae gennych chi yr hawl i dynnu eich caniatâd i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol ar unrhyw adeg. Mae hefyd gennych chi'r hawl i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol, neu gyfyngu neu anghytuno gyda'r ffordd rydych chi'n ei ddefnyddio.

Ar adegau, fe fydd angen i ni gadw rhai manylion personol, er enghraifft, er mwyn sicrhau nad ydych chi'n dyblygu achosion neu i gydymffurfio gyda deddf.

Mae hefyd gennych chi'r hawl i dderbyn y wybodaeth bersonol rydych chi wedi rhannu gyda ni mewn ffordd hwylus i chi – a hefyd i ni ei rannu gyda sefydliad arall. Mae hawl gyda chi hefyd i dderbyn eich gwybodaeth bersonol ac i ni ei wirio. Cysylltwch gyda ni ar post@complantcymru.org.uk os ydych chi am fwy o wybodaeth ar sut i wneud hyn.

Beth i wneud os ydych chi'n anhapus gyda'r modd rydych chi wedi delio gyda'ch gwybodaeth bersonol

Y cam cyntaf yw i gysylltu gyda'r person sy'n delio gyda'ch achos, neu ei rheolwr, er mwyn iddyn nhw ddelio gyda'ch pryder. Medrwyd hefyd gysylltu gyda'n swyddog rheoli data ar Post@complantcymru.org.uk

Os ydych chi yn anhapus gyda'n ymateb, cysylltwch gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar www.ico.org.uk neu 01625 545 745